# Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

August 2022

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Amcanion a strategaeth ..... 5
3. Penodi rheolwyr buddsoddi ..... 9
4. Datrysiad gweithredu ..... 10
5. Materion eraill ..... 11
6. Adolygiad ..... 15
7. Atodiad 1 - Strategaeth fuddsoddi a Rheolwyr ..... 16

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Beth yw pwrpas y Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi (y "Datganiad")?

Mae'r Datganiad hwn yn nodi polisi'r Ymddiriedolwyr ar faterion amrywiol sy'n effeithio ar y penderfyniadau a wneir ynghylch buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (y "Cynllun").

## 1.2. Pwy sydd wedi cyfrannu at y Datganiad?

Lluniwyd y Datganiad hwn ar ôl cael cyngor proffesiynol ysgrifenedig gan Quantum Advisory ("Quantum"), sef cynghorwr buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, ac ar ôl ystyried y cyngor hwnnw. Bydd y cyngor yn cael ei rannu â Chomisiwn y Senedd (y "Cyflogwr Noddi") fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Pensiynau 1995 (y "Ddeddf") a deddfwriaeth ddilynol. Mae gan Quantum y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol o dan adran 36(6) o'r Ddeddf i ddarparu cyngor proffesiynol ar faterion buddsoddi.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau (y "Rheoleiddiwr") wedi cyhoeddi canllawiau ar Reoli Risg Integredig ar gyfer ymddiriedolwyr, cyflogwyr a chynghorwyr cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth, gan adeiladu ar y canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer asesu a monitro cyfamod y cyflogwr a'r cod ymarfer cyllido buddion diffiniedig. Mae'r cod ymarfer cyllido buddion diffiniedig yn rhoi fframwaith sy'n seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion cyllido statudol a geir yn Rhan 3 o Ddeddf Pensiynau 2004.

Er nad yw canllawiau'r Rheoleiddiwr ar Reoli Risg Integredig yn gymwys i gynlluniau sector cyhoeddus yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y dull hwn wrth bennu eu strategaeth fuddsoddi er mwyn dangos yr arferion gorau.

## 1.3. Beth yw cefndir cyfreithiol a statudol y Datganiad?

Dyluniwyd y Datganiad i fodloni gofynion adran 35 o'r Ddeddf. Er bod y Cynllun wedi'i eithrio yn statudol o'r gofyniad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu llunio'r Datganiad yn unol â'r arferion gorau ar gyfer cynlluniau a ariennir. Mae adran 35 yn nodi'r swyddogaethau a ganlyn ar gyfer Ymddiriedolwyr:

1. Rhaid i ymddiriedolwyr cynllun ymddiriedolaeth sicrhau bod datganiad ysgrifenedig, sy'n cael ei baratoi, ei gynnal a'i ddiwygio o bryd i'w gilydd, o'r egwyddorion sy'n llywio penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau at ddibenion y cynllun.

2. Rhaid i'r datganiad gwmpasu'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

    - polisi'r ymddiriedolwyr ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag adrannau 36 (Dewis buddsoddiadau) a 56 (Gofyniad cyllido lleiaf);
    - eu polisi ynghylch y materion a ganlyn.

3. Dyma'r materion hynny:

    - y mathau o fuddsoddiadau sydd i'w dal;
    - y cydbwysedd rhwng mathau gwahanol o fuddsoddiadau;
    - risg;

- yr enillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau;
- realeiddio buddsoddiadau;
- unrhyw faterion eraill a ragnodir.

4. Ni chaiff y cynllun ymddiriedolaeth na'r datganiad osod cyfyngiadau (ni waeth sut y cânt eu mynegi) ar unrhyw bŵer i wneud buddsoddiadau drwy gyfeirio at gydsyniad y cyflogwr.

5. Cyn i ddatganiad o dan yr adran hon gael ei baratoi neu ei ddiwygio, rhaid i ymddiriedolwyr cynllun ymddiriedolaeth wneud fel a ganlyn:

   - cael cyngor ysgrifenedig, ac ystyried y cyngor hwnnw, sydd wedi'i lunio gan berson y mae'r ymddiriedolwyr o'r farn resymol ei fod yn gymwys oherwydd ei allu o ran materion ariannol a'i brofiad ymarferol ohonynt, a bod ganddo'r wybodaeth a'r profiad priodol o reoli buddsoddiadau cynlluniau o'r fath;
   - ymgynghori â'r cyflogwr.

6. Yn achos unrhyw gynllun ymddiriedolaeth:

   - os na chaiff datganiad o dan yr adran hon ei baratoi neu ei gynnal; neu
   - os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi cael cyngor yn unol ag is-adran 5 ac wedi ystyried y cyngor hwnnw.

   Bydd adrannau 3 (Gorchmynion gwahardd) a 10 (Cosbau sifil) yn gymwys i unrhyw ymddiriedolwr sydd wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth.

7. Nid yw'r adran hon yn gymwys i unrhyw gynllun sy'n dod o fewn dosbarth neu ddisgrifiad rhagnodedig.

Mae'r Datganiad hefyd yn adlewyrchu ymateb yr Ymddiriedolwyr i'r cod gwirfoddol o egwyddorion buddsoddi a nodwyd yng nghyhoeddiad Paul Myners, sef "Institutional Investment: a review".

Mae'r Datganiad hefyd yn ystyried Rheoliadau'r Gronfa Diogelu Pensiynau (Gwasanaeth Pensiynadwy) a Chynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) (Diwygio ac Addasu) 2018 ar gyfer polisi ar ystyriaethau sy'n berthnasol yn ariannol, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant corfforaethol (gan gynnwys newid hinsawdd), eu polisi o ran stiwardiaeth (pleidleisio ac ymgysylltu) a'u hymagwedd tuag at farn yr Aelodau (os bydd Aelodau'n lleisio barn).

# 2. Amcanion a strategaeth

## 2.1. Polisi buddsoddi

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr. Mae pwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr wedi'u nodi yng Ngweithred Ymddiriedolaeth y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r angen i fuddsoddi asedau er budd pennaf yr Aelodau a'r buddiolwyr, ac er eu budd hwy yn unig, ac mewn modd sy'n helpu i sicrhau bod y buddion a addewir i'r Aelodau yn cael eu darparu. Nodwyd, hefyd, fod yn rhaid arfer pwerau buddsoddi mewn modd a gyfrifwyd i sicrhau diogelwch, safon, hylifedd a phroffidioldeb y portffolio yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod yn rhaid i asedau'r Cynllun gynnwys, yn bennaf, fuddsoddiadau sy'n cael eu derbyn i'w masnachu ar farchnadoedd rheoledig ac, yn achos buddsoddiadau mewn asedau nad ydynt yn cael eu derbyn i'w masnachu ar farchnadoedd o'r fath, rhaid eu cadw ar lefel ddarbodus bob amser.

## 2.2. Amcanion buddsoddi

Gyda chymorth y cynghorwr buddsoddi ac mewn ymgynghoriad â'r Cyflogwr Noddi, cynhaliodd yr Ymddiriedolwyr adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi yn dilyn trafod eu hamcanion a materion cysylltiedig eraill yn 2017. Nodwyd yr amcanion a ganlyn:

- Dylai'r Cynllun barhau i gael ei ariannu'n llawn, ar sail cyllid amcangyfrif gorau, drwy greu targed o ran yr isafswm enillion.
- Dylid sicrhau dilyniant llyfn o ran lefel cyllido, gyda chost isel o fethiannau a disgwyliad isel o gyfraniadau sylweddol heb eu cyllidebu.
- Mae'r Ymddiriedolwyr am osgoi cymhlethdod diangen. Ceisir strategaeth fuddsoddi bragmatig, sy'n ystyried gwerth asedau'r Cynllun, y strwythur llywodraethu presennol a'r drefn o dalu ffioedd cymesur.
- Mae'r Ymddiriedolwyr am ddirprwyo penderfyniadau buddsoddi "o ddydd i ddydd", cyn belled ag y bo modd, i fuddsoddwyr trydydd parti proffesiynol gan nad oes ganddynt yr adnoddau, y profiad na'r awydd i fuddsoddi asedau'n uniongyrchol.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r dystiolaeth gynyddol sy'n cysylltu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, yn enwedig newid hinsawdd, â pherfformiad ariannol da â ffocws yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr am drafod y materion hyn wrth weithredu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun. Trafodir yr ystyriaethau hyn ymhellach yn adran 5.2 o'r ddogfen hon.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio cael mynediad at ystod ehangach o gronfeydd goddefol a gweithredol gan ystod o Reolwyr Buddsoddi drwy Ateb Gweithredu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio Ateb Gweithredu drwy Mobius Life Limited ("Mobius Life"), ar ôl ceisio cyngor gan gynghorwr buddsoddi'r Cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 4.

## 2.3. Beth drafododd yr Ymddiriedolwyr wrth bennu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun?

Wrth bennu'r strategaeth, trafododd yr Ymddiriedolwyr y canlynol:

- yr amcan buddsoddi;
- nodweddion y Cynllun;
- y taliadau rheoli blynyddol a thaliadau eraill;
- y ffaith na chaiff y cyfraniadau y gallai'r Cynllun eu derbyn fod yn fwy na'r buddion a'r treuliau sy'n daladwy;
- y risgiau a'r gwobrau yn sgil dosbarthiadau asedau a strategaethau buddsoddi amgen;
- y disgwyliad, dros y tymor hir, fod ecwiti ac asedau amgen yn debygol o greu enillion uwch na bondiau, ond gyda risg o ansefydlogrwydd yn y tymor byr neu gyfyngiadau hylifedd;
- yr angen i arallgyfeirio'n briodol rhwng dosbarthiadau asedau gwahanol, yn enwedig marchnadoedd ecwiti;
- pa mor anodd ydyw i reolwyr gweithredol berfformio'n well na marchnadoedd, ar ôl ychwanegu ffioedd;
- cryfder ariannol ac enw da pob rheolwr buddsoddi;
- cryfder ariannol ceidwad y rheolwyr buddsoddi;
- polisïau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant y rheolwyr buddsoddi;
- y ffaith bod y Cynllun yn gynllun sector cyhoeddus cymharol fach, wedi'i ariannu'n llawn, heb lawer o ddylanwad ar y farchnad fuddsoddi;
- y ffaith nad yw'r Cynllun yn ddigon mawr i reoli buddsoddiadau unigol, felly mae'n dibynnu ar gronfeydd cyfun, gan gyfyngu ar y graddau y gall y Cynllun reoli ei fuddsoddiadau unigol;
- enw da a chryfder cyfamod y Cyflogwr Noddi i gefnogi'r Cynllun;
- y gall daliadau amrywio o bryd i'w gilydd wrth i'r rheolwyr addasu eu dyraniad asedau am fod asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn cronfeydd cyfun. Dewiswyd cronfeydd cyfun ar gyfer y Cynllun o ystyried bod yr asedau'n gymharol fach, sy'n golygu nad yw'r Ymddiriedolwyr yn gallu dewis stoc unigol, oherwydd y gallai'r gost o geisio gwneud hynny arwain at daliadau uwch ac efallai na fyddant yn cynnig gwerth da am arian i'r Aelodau neu Gomisiwn y Senedd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i adolygu hyn.

## 2.4. Pa risgiau a ystyriwyd a sut y maent yn cael eu rheoli?

Er mwyn cyflawni eu hamcanion, mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod elfen amrywiol o risg ym mhob buddsoddiad. Nododd yr Ymddiriedolwyr y risgiau buddsoddi a ganlyn:

- y risg na ellir talu taliadau buddion yn y dyfodol;
- y risg na fydd enillion buddsoddi yn gyffredinol yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir;
- y risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn cyflawni'r gyfradd enillion ddisgwyliedig;
- y risg y gallai gwerth rhwymedigaethau gynyddu oherwydd newidiadau mewn chwyddiant gwirioneddol a disgwyliedig;
- y risg y gallai gwerth rhwymedigaethau gynyddu oherwydd ffactorau annisgwyl fel disgwyliad oes;
- y risg o anghysondeb rhwng gwerth asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun;
- y risg o ddiffyg o ran asedau hylifol y Cynllun o'u cymharu â'i rwymedigaethau uniongyrchol;
- y risg y gall perfformiad unrhyw fuddsoddiad unigol o fewn asedau'r Cynllun effeithio'n anghymesur ar allu'r Cynllun i gyflawni ei amcanion buddsoddi cyffredinol;

- y risg o gamddefnyddio asedau'r Cynllun, eu defnyddio heb awdurdod neu eu camddarparu;
- y ffyrdd y dylid mesur a rheoli risgiau;
- y risg y gallai ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant corfforaethol; gan gynnwys newid hinsawdd; effeithio'n andwyol ar werth asedau'r cynllun os na roddir ystyriaeth ddyledus a/neu os caiff ei gamddeall.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y mathau gwahanol hyn o risg ac yn ceisio eu lleihau cyn belled â phosibl drwy fonitro perfformiad buddsoddiadau'n rheolaidd, drwy bolisi arallgyfeirio, drwy ystyried taliadau yn y dyfodol a thrwy adolygu priodoldeb y strategaeth fuddsoddi yn erbyn amcanion y Cynllun yn rheolaidd.

O ystyried natur gymhleth a chydberthynol y risgiau hyn, mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried fel rhan o bob adolygiad ffurfiol o'r strategaeth fuddsoddi. Gellir modelu rhai o'r risgiau hyn yn fanwl yn ystod adolygiadau o'r fath hefyd.

## 2.5. Y strategaeth fuddsoddi

Ar hyn o bryd, mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi gyda sawl rheolwr buddsoddi, mewn cyfuniad o gronfeydd buddsoddi ar y cyd a reolir yn oddefol ac yn weithredol. Rheolir y rhain yn erbyn meincnodau priodol mewn perthynas â'r strategaeth.

Mae'r Cynllun yn caniatáu i'r rheolwyr buddsoddi ddefnyddio deilliadau at ddibenion rheoli portffolio mewn modd effeithlon a lleihau risg.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod yn rhaid arallgyfeirio asedau'r Cynllun yn briodol mewn ffordd sy'n osgoi dibynnu'n ormodol ar unrhyw ased, corff dyroddi neu grŵp o ymgymeriadau penodol, ac er mwyn osgoi cronni risg yn y portffolio yn ei gyfanrwydd. Rhaid i fuddsoddiadau mewn asedau a ddyroddir gan yr un corff dyroddi, neu gan gorff dyroddi sy'n perthyn i'r un grŵp, beidio â gwneud y Cynllun yn agored i lefel ormodol o risg.

Mae rhagor o fanylion am fuddsoddiadau'r Cynllun ar gael yn Atodiad 1.

## 2.6. Rheolwyr cronfeydd, arddull ac enillion targed

Mae'r cronfeydd y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt yn gronfeydd cyfun, sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr o ystyried maint a natur pob adran o'r Cynllun. Mae manylion am y cronfeydd, y rheolwyr, y meincnodau a'r enillion targed i'w gweld yn Atodiad 1.

## 2.7. Ailgydbwyso a llif arian

Mae dyraniad meincnod y Cynllun, a amlinellir yn Atodiad 1, yn cael ei fonitro bob chwarter ac mae'n cael ei nodi yn adroddiadau monitro chwarterol y Cynllun.

Os na leisir barn benodol am farchnadoedd, mae'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio llif arian i ailgydbwyso asedau â'r dyraniad asedau strategol. Gwneir buddsoddiadau a dadfuddsoddiadau er mwyn helpu'r Cynllun i gynnal y dyraniad asedau strategol.

Mae'r Cynllun yn cael cyfraniadau sydd, ar hyn o bryd, yn fwy na thaliadau buddion arferol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod nad oes modd rhagweld y buddion y bydd angen eu talu yn y dyfodol, o ystyried: (i) eu bod yn cael eu hamcangyfrif ar sail rhagdybiaethau a osodir gan actiwari'r Cynllun; a (ii) oherwydd natur y swyddi (a'r ansicrwydd ynghylch etholiadau), nid yw aelodau'r Cynllun yn cydymffurfio â'r oedran ymddeol arferol fel rheol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y nodwedd hon ac wedi nodi'r potensial ar gyfer rheoli hylifedd a llif arian yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun yn cynnal cronfa Arian Parod y gall yr Ymddiriedolwyr, ar adegau o ofynion llif arian uchel (fel cyn etholiad), ei defnyddio at ddibenion rheoli risg. Mae rhagor o fanylion am y gronfa Arian Parod ar gael yn Atodiad 1.

# 3. Penodi rheolwyr buddsoddi

## 3.1. Sawl rheolwr buddsoddi sydd?

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu penodi pedwar rheolwr buddsoddi ac wyth cronfa. Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn dwy gronfa twf amrywiol, cronfa marchnadoedd preifat, dwy gronfa ecwiti, cronfa eiddo a chronfa giltiau sy’n gysylltiedig â mynegai. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnal cronfa Arian Parod at ddibenion llif arian, nad yw'n rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun. Ceir mynediad at yr holl gronfeydd hyn drwy ateb gweithredu Mobius Life.

## 3.2. Pa gytundebau ffurfiol y daethpwyd iddynt gyda’r rheolwyr buddsoddi?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dewis rheolwyr buddsoddi a chronfeydd sy'n briodol ar gyfer rhoi’r strategaeth fuddsoddi ar waith.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi llofnodi dogfen bolisi gyda Mobius Life ar ran y Cynllun. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr am adolygiad cyfreithiol o ddogfennaeth polisi Mobius Life cyn defnyddio gwasanaethau Mobius Life.

Mae'r berthynas â Mobius Life a phob rheolwr buddsoddi sylfaenol yn benagored ac yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i adolygu penodiad Mobius Life a phob rheolwr buddsoddi a byddant yn ceisio disodli unrhyw reolwyr, neu gronfeydd, nad ydynt yn briodol mwyach i weithredu strategaeth fuddsoddi’r Cynllun.

## 3.3. Beth yw cyfrifoldebau’r rheolwyr buddsoddi?

Mae'r rheolwyr buddsoddi yn gyfrifol am reoli’r buddsoddiadau o ddydd i ddydd ac am benodi ceidwaid os oes angen.

Mae'r rheolwyr wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 i ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

## 3.4. Ceidwaid a gweinyddwyr

Gwneir buddsoddiadau'r Cynllun drwy gyfryngau buddsoddi cyfun. Felly, nid oes angen i'r Ymddiriedolwyr benodi ceidwaid yn ffurfiol gan fod y buddsoddiad yn cynnwys unedau polisi, yn hytrach na'r stociau a'r cyfranddaliadau sylfaenol. Fodd bynnag, mae pob rheolwr wedi penodi trydydd parti i gadw’r asedau a ddelir yn y polisïau’n ddiogel.

Gan fod yr holl gronfeydd yn cael eu dal drwy Mobius Life, mae’r asedau’n cael eu dal dan enw Mobius Life.

# 4. Datrysiad gweithredu

## 4.1. Beth yw ateb gweithredu a pham y dewiswyd ei ddefnyddio?

Gwasanaeth sy’n galluogi cynlluniau pensiwn i brynu, gwerthu a dal eu buddsoddiadau mewn un lle yw ateb gweithredu. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd wrth newid buddsoddiadau, wrth i strategaeth y Cynllun newid neu wrth i reolwyr y cronfeydd newid.

Mae canoli cronfeydd hefyd yn gwneud y broses o lunio adroddiadau wedi’u cydgrynhoi yn haws ac yn fwy rheolaidd, gan helpu i sicrhau y gellir olrhain a monitro strategaeth fuddsoddi a’r cynllun gweithredu cysylltiedig yn effeithiol. Mae’r holl nodweddion hyn yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd wrth weinyddu cynlluniau pensiwn, yn hwyluso’r broses o weithredu strategaeth, yn cynnig potensial i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gronfeydd, ac yn cynnig gostyngiadau posibl o ran ffioedd drwy arbedion maint.

## 4.2. Sut i gael mynediad at ateb gweithredu?

Mae cynlluniau pensiwn yn rhan o bolisi oes sy'n gysylltiedig ag uned drwy Bolisi Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr. Mae gwerth y polisi yn gysylltiedig â'r buddsoddiadau sylfaenol, y mae darparwr yr ateb gweithredu, sef Mobius Life yn yr achos hwn, wedi’i gyfarwyddo i'w prynu. Mae Mobius Life yn gyfrifol am fuddsoddi yn y cronfeydd sylfaenol ac mae'n cymryd cyfrifoldeb dros y berthynas â rheolwyr y cronfeydd sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys trafodiadau, adroddiadau a llywodraethiant. Mae hyn yn wahanol i’r berthynas draddodiadol rhwng cynllun pensiwn â rheolwyr cronfa pan fyddent wedi buddsoddi'n uniongyrchol â'r rheolwyr hyn ac wedi cynnal nifer o'r perthnasoedd unigol hyn.

# 5. Materion eraill

## 5.1. Beth yw polisi'r Ymddiriedolwyr ar realeiddio buddsoddiadau?

Mae gan y rheolwyr buddsoddi ddisgresiwn o ran pryd y caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu realeiddio a disgresiwn o ran ystyriaethau sy'n ymwneud â hylifedd buddsoddiadau.

Pan fo'n briodol, bydd yr Ymddiriedolwyr, ar argymhelliad y gweinyddwr, yn penderfynu faint o arian parod sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw alldaliadau ac yn hysbysu'r rheolwyr buddsoddi o unrhyw ofynion hylifedd. Yn y lle cyntaf, caiff buddsoddiadau eu realeiddio er mwyn ailgydbwyso cronfeydd â'r dyraniad asedau targed a nodir yn Atodiad 1.

## 5.2. Beth yw polisi'r Ymddiriedolwyr ar ystyriaethau sy'n berthnasol yn ariannol, materion anariannol a pholisïau stiwardiaeth?

### 5.2.1. Ystyriaethau sy'n berthnasol yn ariannol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr effaith bosibl ar fuddsoddiadau'r Cynllun (o ran risg ac enillion) sy'n deillio o faterion sy'n berthnasol yn ariannol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn diffinio'r rhain fel rhai sy'n cynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (gan gynnwys newid hinsawdd).

O ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau hyn yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. At hynny, o bryd i'w gilydd, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ymwneud â'r rheolwyr buddsoddi presennol. Ymhellach, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant eu rheolwyr drwy adroddiad amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant blynyddol, ac yn holi'r ymgynghorwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr tuag at ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant wedi'u hymgorffori yn eu prosesau buddsoddi.

Hefyd, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant wrth wneud penderfyniadau ar y strategaeth fuddsoddi yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â'r amcanion buddsoddi a nodir yn adran 2.2 ac yn cydnabod y risgiau a nodir yn adran 2.4.

Hyd yn hyn, nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu cyfyngiadau ar y rheolwyr buddsoddi penodedig, ond byddant yn ystyried gwneud hynny pan fo'n briodol. Mae'r Cynllun yn ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant wrth ddewis ei gronfeydd ecwiti a reolir yn oddefol, ac mae'n dal asedau'n benodol yng Nghronfa Ecwiti Byd-eang Moesegol Legal and General Investment Management a Chronfa Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi'i rhagfantoli ar GBP) Legal and General Investment Management. Mae'r cronfeydd hyn yn olrhain y fersiynau o'r Mynegai Datblygedig FTSE4Good sydd wedi'u rhagfantoli heb fod yng nghyd-destun arian cyfred, ac yng nghyd-destun arian cyfred, yn y drefn honno, ac yn defnyddio mesurau rhagfantoli ar gyfer buddsoddiadau penodol, er mwyn adlewyrchu'r ystyriaethau hyn yn y strategaethau goddefol y maent yn eu defnyddio. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn eu

Cronfeydd Twf Amrywiol, Cronfa Enillion Real Cynaliadwy BNY Mellon, a Chronfa Aml-Ased Cynaliadwy Baillie Gifford; y mae’r ddwy ohonynt yn ceisio integreiddio'n gyfannol (a sgrinio'n weithredol am) themâu stiwardiaeth a chynaliadwyedd yn eu syniadau buddsoddi. Gyda threigl amser, ac ar sail cyngor proffesiynol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio buddsoddi mewn rhagor o gronfeydd cyfun sydd â nodweddion â gogwydd tuag at ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant.

Hefyd, mae’r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu polisi i leihau buddsoddiadau’r Cynllun yn y sector olew a nwy i sero dros gyfnod pum mlynedd yn amodol ar argaeledd cyfryngau buddsoddi addas o ystyried maint y Cynllun dros y cyfnod hwnnw.

### 5.2.2. Stiwardiaeth

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ran dylanwadu ar newid oherwydd maint a natur buddsoddiadau'r Cynllun. Fodd bynnag, maent yn cydnabod yr angen i fod yn stiwardiaid cyfrifol ac arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â'u buddsoddiadau mewn modd cyfrifol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau stiwardiaeth hyn yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro’r rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau stiwardiaeth eu rheolwyr drwy adroddiad blynyddol ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, ac yn holi eu cynghorwyr yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i sicrhau bod polisïau stiwardiaeth eu rheolwyr wedi'u hymgorffori yn eu prosesau buddsoddi.

### 5.2.3. Materion anariannol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ffactorau anariannol (os bydd Aelodau wedi lleisio eu barn). Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio polisi ffurfiol mewn perthynas â hyn wrth ddewis, cadw a realeiddio buddsoddiadau. Mae Ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn cyfathrebu â’r Aelodau drwy ddefnyddio amryw o ffyrdd sydd, hyd yn hyn, wedi cynnwys cylchlythyrau a sesiynau galw heibio sy'n gwahodd yr Aelodau i gysylltu â'r Cynllun a mynegi eu barn. Mae’r Ymddiriedolwyr yn cael gwybod am y safbwyntiau a gyflwynir i'r Ysgrifenyddiaeth.

## 5.3. Sut y mae’r partïon amrywiol sy’n ymwneud â buddsoddi asedau’r Cynllun yn cael eu talu?

Telir ffi sefydlog i Quantum. Nid yw Quantum yn cael comisiwn.

Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi na ellir teilwra strategaeth fuddsoddi a phenderfyniadau rheolwyr y gronfa i bolisïau'r Ymddiriedolwyr ac nid yw'r rheolwyr yn cael eu talu’n uniongyrchol ar y sail hon. Fodd bynnag, yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth Quantum, sy’n pennu strategaeth fuddsoddi’r Cynllun ac yn dewis rheolwyr a chronfeydd priodol i roi'r strategaeth ar waith.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cymell y rheolwyr buddsoddi’n uniongyrchol i ymgysylltu â’r rhai sy’n codi dyledion neu ecwiti i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi gymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath fel y bo’n briodol ac yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni amcanion buddsoddi'r gronfa berthnasol. Mae'r cronfeydd a ddefnyddir, fel arfer, yn cynnwys amcan y disgwylir iddo arwain at enillion cadarnhaol dros y tymor canolig i’r tymor hwy, ac, o ganlyniad, disgwylir i ymgysylltiad y rheolwyr buddsoddi â’r rheini sy’n codi dyledion neu ecwiti gael eu cyflawni gyda’r bwriad o greu gwerth tymor canolig i dymor hwy

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y ffioedd a'r taliadau sy'n gysylltiedig â phob buddsoddiad cyn buddsoddi.

Mae'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu talu ar ffi sy'n cael ei chyfrif fel canran sefydlog o gyfanswm cronfeydd y cynllun y maent yn eu rheoli. Dewiswyd y strwythur hwn i gysoni buddion rheolwyr y

cronfeydd â rhai'r Cynllun. At hynny, gall rheolwyr y cronfeydd dalu comisiynau i drydydd partïon ar fasnach y maent yn ymgymryd â hi wrth reoli'r asedau.

Mae Mobius Life yn cael eu talu ar sail ffi ad valorem, a gyfrifir fel canran sefydlog o werth cronfeydd y Cynllun y maent yn eu rheoli.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael datganiadau blynyddol gan Mobius Life a/neu'r rheolwyr buddsoddi sy'n amlinellu holl gostau buddsoddi asedau'r Cynllun.

## 5.4. Sut y mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad a rheolwyr buddsoddi, a'r hyn a delir iddynt?

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Quantum Advisory i helpu i ddewis a monitro rheolwyr buddsoddi'r Cynllun.

Bydd yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth Quantum Advisory, yn monitro perfformiad pob cronfa yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael adroddiadau monitro chwarterol i asesu perfformiad y rheolwyr.

At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r taliadau sy'n berthnasol i bob cronfa yn flynyddol i sicrhau bod y rhain yn parhau i gynrychioli gwerth am arian.

## 5.5. A yw'r Ymddiriedolwyr yn gwneud unrhyw benderfyniadau buddsoddi ar eu liwt eu hunain?

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am fuddsoddi asedau'r Cynllun. Maent yn gwneud rhai penderfyniadau eu hunain ac yn dirprwyo eraill.

Wrth benderfynu pa benderfyniadau i'w gwneud eu hunain, a pha rai i'w dirprwyo, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried a oes ganddynt yr hyfforddiant a'r arbenigedd priodol er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu'r strwythur a ganlyn ar gyfer gwneud penderfyniadau:

### Yr ymddiriedolwyr

- Pennu strwythurau a phrosesau ar gyfer cyflawni eu rôl.
- Cytuno ar y strwythur ar gyfer gweithredu strategaeth fuddsoddi.
- Dewis a monitro'r dyraniad asedau a gynlluniwyd.
- Dewis a monitro cynghorwyr buddsoddi a rheolwyr cronfeydd, a bodloni eu hunain o ran gwerth am arian y taliadau priodol.
- Adolygu perfformiad y strategaeth yn erbyn amcan cyllido'r Cynllun.
- Dewis a monitro buddsoddiadau uniongyrchol.
- Paratoi a chynnal y Datganiad.

### Y cynghorwr buddsoddi

- Gwneud gwaith monitro, cyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor ar bob agwedd ar y gwaith o fuddsoddi asedau'r Cynllun, gan gynnwys eu gweithredu, ac yn unol â'r amcan cyllido.
- Rhoi cyngor ar y Datganiad hwn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran arferion gorau.
- Darparu'r hyfforddiant gofynnol.

### Rheolwyr buddsoddi (neu gronfeydd)

- Gweithredu'n unol â'r contractau a'r cytundebau ysgrifenedig.
- Dewis buddsoddiadau unigol o ran eu haddasrwydd ac arallgyfeirio ar gyfer y cyfryngau buddsoddi cyfun unigol.
- Sicrhau addasrwydd y meincnod a ddewiswyd ar gyfer y cyfrwng buddsoddi priodol.

### Darparwr y gwasanaeth gweithredu

- Gweithredu'n unol â'r contractau a'r cytundebau ysgrifenedig.

## 5.6. Monitro strwythurau cyfalaf cwmnïau buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r broses o fonitro strwythur cyfalaf y cwmnïau buddsoddi i'r rheolwyr buddsoddi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwyr buddsoddi gymryd mesurau priodol ar gyfer eu mandadau i fonitro strwythur cyfalaf cwmnïau buddsoddi.

## 5.7. Sut y mae'r Ymddiriedolwyr yn rheoli gwrthdaro buddiannau posibl?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol (yn amodol ar lefelau rhesymol o amherthnasedd) ar ddechrau pob cyfarfod Ymddiriedolwyr ac yn dogfennu'r rhain yn y cofnodion.

# 6. Adolygiad

## 6.1. Pa mor aml y caiff buddsoddiadau eu hadolygu?

Mae adolygiadau o strategaeth y Cynllun yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd, ochr yn ochr â phrisiadau actiwaraidd y Cynllun bob tair blynedd fel arfer; ond gellir cynnal adolygiadau'n fwy rheolaidd os bydd newid sylweddol i'r amgylchiadau.

Caiff y profiad o ran enillion ar fuddsoddiad a pherfformiad cronfeydd unigol eu hadolygu gyda chymorth Quantum yn ôl yr angen. Gall unrhyw newid i strategaeth fuddsoddi olygu bod angen newid rheolwyr buddsoddi, ni waeth beth yw perfformiad sylfaenol y cronfeydd.

## 6.2. Sut y mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro costau trosiant portffolios a throsiant portffolios?

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r broses o ddewis daliadau i'r rheolwyr buddsoddi penodedig. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael adroddiad blynyddol gan y rheolwyr buddsoddi sy'n nodi trosiant y portffolio a'r costau cysylltiedig.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi pennu targed penodol ar gyfer trosiant portffolio ar gyfer pob rheolwr buddsoddi ac maent yn cydnabod mai'r rheolwr sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros y daliadau sylfaenol yn y cronfeydd. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymharu'r trosiant blynyddol ar gyfer pob cronfa ac yn tynnu allan unrhyw anghysondebau posibl â blynyddoedd blaenorol gyda'r rheolwyr buddsoddi i sicrhau bod proses ac athroniaeth y rheolwr buddsoddi'n parhau i fod yn gyson.

## 6.3. Pa mor aml y caiff y Datganiad hwn ei adolygu?

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd ac yn dilyn unrhyw newid sylweddol yn y polisi buddsoddi.

| | |
|---|---|
| ........................................................................... | ........................................................................... |
| Llofnod | Enw |
| ........................................................................... | ........................................................................... |
| Llofnod | Enw |

Ar gyfer ac ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

………………………………………………….

Dyddiad

# 7. Atodiad 1 - Strategaeth fuddsoddi a Rheolwyr

Mae'r tabl isod yn nodi dyraniad asedau strategol y Cynllun a'r rheolwyr cronfeydd.

| Dosbarth asedau | Rheolwr | Cronfa | Dyraniad asedau (%) |
|---|---|---|---|
| **Asedau sy'n ceisio enillion** | | | **90.0** |
| Ecwiti | Legal & General Investment Management ("LGIM") | Ecwiti Byd-eang Moesegol[1] | 12.5 |
| Ecwiti | LGIM | Ecwiti Byd-eang Moesegol – wedi'i rhagfantoli ar GBP[2] | 12.5 |
| Twf arallgyfeiriedig | Baillie Gifford | Aml-Ased Cynaliadwy[3] | 17.0 |
| Twf arallgyfeiriedig | BNY Mellon | Enillion Real Cynaliadwy[4] | 33.0 |
| Marchnadoedd preifat | Partners Group | Cenedlaethau[5] | 10.0 |
| Eiddo | LGIM | Eiddo a reolir[6] | 5.0 |
| **Asedau incwm sefydlog** | | | **10.0** |
| Giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai | LGIM | Mynegai giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai dros 5 mlynedd[7] | 10.0 |
| **Arian parod** | | | |
| Arian parod | LGIM | Arian parod[8] | --[9] |
| **Cyfanswm** | | | **100.0** |

[1] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2018. [2] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Medi 2022. [3] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Mai 2009. [4] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Rhagfyr 2019. [5] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2018. [6] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2018. [7] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2018. [8] Y berthynas â'r Cynllun wedi'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2021. [9] Er gwybodaeth, mae'r Cynllun yn defnyddio Cronfa Arian Parod LGIM at ddibenion llif arian (ac felly nid yw'n rhan o'r dyraniad asedau strategol).

## Manylion am y rheolwyr a'r gronfa

Mae'r tabl isod yn dangos y meincnodau, y targedau o ran perfformio'n well a'r ceidwaid ar gyfer pob cronfa y mae'r Cynllun wedi buddsoddi ynddi. Ceir mynediad at yr holl gronfeydd drwy Mobius Life a'r ffioedd a nodir yw'r rhai a godir gan Mobius Life.

| Dosbarth asedau | Cronfa | Meincnod | Amcan/Targed o ran perfformio'n well | Ffi reoli flynyddol | Ceidwad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sy'n ceisio enillion** | | | | | |
| Ecwiti | Ecwiti Byd-eang Moesegol LGIM | Mynegai Ecwiti Byd-eang FTSE4Good | Olrhain perfformiad y meincnod i o fewn +/- 0.5% y flwyddyn am ddwy flynedd o dair. | 0.35% | Gwarannau tramor: Citi Bank<br>Gwarannau'r DU: HSBC |
| Ecwiti | Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol LGIM – wedi'i rhagfantoli ar GBP | Mynegai Ecwiti Byd-eang FTSE4Good – wedi'i rhagfantoli ar GBP | Olrhain perfformiad y meincnod i o fewn +/- 0.5% y flwyddyn am ddwy flynedd o dair. | 0.365% | Gwarannau tramor: Citi Bank<br>Gwarannau'r DU: HSBC |
| Twf arallgyfeiriedig | Aml-Ased Cynaliadwy Baillie Gifford | Cyfradd Sylfaenol y DU | Perfformio'n well na'r meincnod o 3.5% y flwyddyn dros gyfnodau pum mlynedd treigl. | 0.40% | BNY Mellon |
| Twf arallgyfeiriedig | Enillion Real Cynaliadwy BNY Mellon | LIBOR Sterling 1 mis | Perfformio'n well na'r meincnod o 4% y flwyddyn (cyn ffioedd) dros gyfnodau pedair blynedd treigl. | 0.69% | BNY Mellon |
| Marchnado edd preifat | Cenedlaethau Partners | Amherthnasol | Perfformio'n well na marchnadoedd cyhoeddus dros gylch marchnad llawn (gyda tharged enillion o 7% - 11% y flwyddyn fel rheol). | 1.35%* | BNY Mellon Trust & Depositary (UK) Limited |
| Eiddo | Eiddo a reolir LGIM | Mynegai Holl Gronfeydd Eiddo Cytbwys Chwarterol AREF/IPD y DU | Mynegai Holl Gronfeydd Eiddo Cytbwys Chwarterol AREF/IPD y DU | 0.64% | HSBC |
| **Asedau incwm sefydlog** | | | | | |
| Giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai | Mynegai giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai dros 5 mlynedd LGIM-Linked Gilts Index | Mynegai Actiwarïaidd FTSE sy'n gysylltieidig â mynegai (dros 5 mlynedd) | Olrhain perfformiad y meincnod i o fewn +/- 0.25% y flwyddyn am ddwy flynedd o dair. | 0.08% | HSBC |
| **Arian parod** | | | | | |
| Arian parod | Arian parod LGIM | LIBID Sterling 7 Diwrnod | Perfformio'n well na'r meincnod (cyn ffioedd). | 0.10% | HSBC |

* Mae'r Gronfa'n destun ffi sy'n gysylltiedig â pherfformiad (sydd ag uchafswm uchel) yn ogystal â thaliad rheoli blynyddol o hyd at 1% y flwyddyn.